



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Addysg ddewisol yn y cartref

Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 202/2016

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Addysg ddewisol yn y cartref

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol (ALLau) a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau anstatudol i ALLau ynglŷn â datblygu a chynnal perthynas gyda'r gymuned addysgu yn y cartref. Mae hefyd yn ceisio egluro hawliau rhieni/gofalwyr sy'n addysgu yn y cartref a chyfrifoldebau ALLau.

Camau i'w cymryd

Dylai awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac wrth ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Lles Disgyblion

Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: WellbeingSHARE@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgsgiliau

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
Rhesymau dros addysg ddewisol yn y cartref	3
Hawliau a chyfrifoldebau	4
Hawliau a chyfrifoldebau rhieni	4
Tynnu enw plentyn oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol	4
Cyfrifoldebau'r ALLau	5
Hawliau plant	7
Dulliau addysgu yn y cartref	8
Polisiau a gweithdrefnau	10
Ymyrraeth gynnar a datrys anghydfodau	10
Addysg hyblyg	11
Cyrchoedd triwantiaid	11
Cynorthwyo'r gymuned addysg yn y cartref	12
Cynorthwyo teuluoedd addysg ddewisol yn y cartref	12
Cwrdd â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref	12
Ystyriaethau ymarferol	13
Gweithio gyda rhwydweithiau a grwpiau addysg yn y cartref	13
Cefnogi plant a phobl ifanc	15
Nodweddion darpariaeth addysg yn y cartref	17
Rhannu arferion da	18
Plant sydd â datganiadau AAA	19
Deddfwriaeth ar anghenion dysgu ychwanegol	20
Diogelu	21
Dyletswyddau diogelu'r ALLau	21
Rhannu gwybodaeth	22
Gwefannau ac adnoddau defnyddiol	24

Rhagair y Gweinidog

Mae hawl gan bob plentyn i gael addysg. Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru'n derbyn eu haddysg yn yr ysgol, ond mae rhai rhieni/gofalwyr yn dewis addysgu eu plant yn y cartref.

Lles y plentyn yw'r peth pwysicaf i rieni/gofalwyr sy'n addysgu yn y cartref ac awdurdodau lleol (ALLau) fel ei gilydd. Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar y sail gyffredin honno ac yn gosod cyd-destun newydd ar gyfer meithrin cysylltiadau cadarnhaol a pharch rhwng ALLau a'r gymuned addysg yn y cartref, ac ar gyfer darparu cyngor a chymorth. Maent hefyd yn ceisio egluro'r cydbwysedd rhwng hawliau rhieni/gofalwyr i addysgu yn y cartref, hawliau plant i gael addysg addas a chyfrifoldebau'r ALLau.



Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cyflwyniad

Mae'r mwyafrif helaeth o rieni¹ yng Nghymru'n dewis i'w plant gael eu haddysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae rhai rhieni yn dewis addysgu eu plant yn y cartref. Yr enw ar hyn yw addysg ddewisol yn y cartref. Mae data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod nifer y rhieni sy'n dewis addysgu yn y cartref wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Ceir rhagor o wybodaeth yn *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2015/16* (www.gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy).

Mae'r canllawiau hyn yn disodli pennod chwech o'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2006, sef Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006, *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. Dogfen ar gyfer ALLau yw hon, ond fe all fod yn ddefnyddiol hefyd i rieni sy'n addysgu yn y cartref a grwpiau sy'n cefnogi addysg yn y cartref. Mae'n ceisio hybu dull mwy cyson o gynorthwyo a chydweithio â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref drwy gyfeirio at enghreifftiau o arfer da ac egluro'r gyfraith yn ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref a'r cyfrifoldebau statudol ehangach sydd gan ALLau.

Nid yw'r canllawiau hyn yn hollgynhwysol a bydd angen i ALLau ystyried amgylchiadau penodol y teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref wrth wneud penderfyniadau.

Rhesymau dros addysg ddewisol yn y cartref

Mae'r gymuned addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru'n boblogaeth amrywiol ac mae teuluoedd yn dewis addysgu yn y cartref am nifer o resymau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhesymau ideolegol neu athronyddol
- iechyd (yn cynnwys iechyd a lles emosiynol)
- diwylliannol
- crefyddol
- bwlio
- darpariaeth addysgol arbennig
- dewis iaith
- hyd y daith i'r ysgol
- aros am le mewn ysgol o'u dewis
- hyblygrwydd a theilwra'r dull addysgu.

Gall addysg yn y cartref roi 'rhyddid wrth ddysgu' sy'n canolbwyntio ar y pynciau sydd o'r diddordeb mwyaf i'r plentyn. Gall rhieni addysgu eu plant mewn nifer o ffyrdd amrywiol ac mewn nifer o amgylcheddau gwahanol. Mae llawer o rieni sy'n addysgu yn y cartref yn teimlo eu bod yn gallu darparu ar gyfer anghenion ac arddull dysgu penodol eu plant yn fwy effeithiol nag yn yr ystafell ddosbarth.

¹ Yn y canllawiau hyn, mae i 'riant' yr un ystyr ag sydd yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 ac felly mae'n cynnwys person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn a pherson sydd â gofal dros blentyn.

Hawliau a chyfrifoldebau

Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:

No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and teaching is in conformity with their own religious and philosophical convictions.

Hawliau a chyfrifoldebau rhieni

Nid yw'r hawl i dderbyn addysg yn y cartref yn un sylfaenol. Mae'n amodol ar rieni'n darparu addysg 'effeithlon' ac 'addas' i'w plentyn. Gall rhieni addysgu eu plant yn y cartref ar yr amod eu bod yn cyflawni gofynion adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.

The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable –

- (a) to his age, ability and aptitude, and
- (b) to any special educational needs he may have,

either by regular attendance at school or otherwise.

Gall rhieni benderfynu arfer eu hawl i addysgu eu plentyn yn y cartref o oed cynnar iawn, ac felly mae'n bosibl na fydd y plentyn wedi cael ei gofrestru mewn ysgol cyn hynny. Gallant hefyd ddewis addysgu yn y cartref mewn unrhyw gyfnod arall hyd at ddiwedd yr oedran ysgol gorfodol.

Nid yw'n ofynnol i rieni gofrestru na gofyn am gymeradwyaeth gan yr ALL i addysgu eu plant yn y cartref. Os bydd rhieni'n dewis addysgu eu plant yn y cartref, rhaid iddynt fod yn barod i ymgymryd â'r holl gyfrifoldeb ariannol, gan gynnwys talu'r gost ar gyfer sefyll unrhyw arholiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, anogir ALLau i ddarparu cymorth os oes adnoddau ar gael.

Tynnu enw plentyn oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol

Os yw plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol, ni ellir tynnu ei enw oddi ar y gofrestr oni bai bod yr ysgol yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig y bydd y plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref². Os yw'r plentyn yn mynychu ysgol arbennig o dan drefniadau a wnaed gan yr ALL, rhaid i rieni gael caniatâd gan yr ALL cyn y gellir tynnu enw'r plentyn oddi ar y gofrestr.

Ni ddylid ar unrhyw gyfrif annog rhieni i dynnu enw eu plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn osgoi camau i'w wahardd neu i osgoi cael eu herlyn am fethu â sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol. Dylai'r ALLau fynd ati fel mater o drefn i ddadansoddi'r rhesymau pam fod rhieni'n dewis addysgu plentyn yn y cartref. Bydd hyn yn fodd i nodi unrhyw batrymau neu

² Rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

themâu o ran y rhesymau dros addysgu yn y cartref. Mewn rhai achosion, bydd ALLau yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Bydd dadansoddi'r rhesymau yn helpu i wella dealltwriaeth ALLau o addysgu yn y cartref, ac yn eu rhoi mewn sefyllfa well i ddatblygu a gweithredu mesurau i annog a chefnogi teuluoedd i gadw eu plant yn yr ysgol.

Wedi i'r ysgol gael hysbysiad ysgrifenedig o fwriad rhieni i addysgu plentyn (plant) yn y cartref, rhaid tynnu enw'r plentyn (enwau'r plant) oddi ar y gofrestr derbyn (Rheoliad 8(1) (d) Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010). Rhaid i'r ysgol (gan gynnwys ysgolion yn y sector annibynnol) wneud datganiad i'r ALL (gan roi enw a chyfeiriad y plentyn) o fewn 10 diwrnod ysgol ar ôl dyddiad dileu'r enw (rheoliad 12(3)).

Lle mae'r ALL wedi cael hysbysiad gan yr ysgol ynghylch tynnu plentyn o'r ysgol gyda'r bwriad o'i addysgu yn y cartref, dylai'r ALL ysgrifennu at y rhieni i gydnabod eu bod wedi cael yr hysbysiad. Dylai'r ALL hefyd ystyried a oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod lle i bryderu ynghylch tynnu'r plentyn o'r ysgol. Os oes pryderon, megis y rhai a restrir yn yr adran 'Cynorthwyo'r gymuned addysg yn y cartref' yn y ddogfen hon (tudalen 12), dylid gofyn am gyngor gan y Gwasanaeth Lles Addysg ac asiantaethau perthnasol, a threfnu i gymorth neu gefnogaeth fod ar gael i'r teulu.

Os bydd rhiant, ar ôl addysgu ei blentyn yn y cartref, yn dymuno i'w blentyn ddychwelyd i'r ysgol, dylai gyflwyno cais ysgrifenedig i'r ALL neu i'r ysgol os mai hi yw'r awdurdod derbyn.

Cyfrifoldebau'r ALLau

Nid yw ALLau yn gyfrifol am ddarparu addysg ddewisol yn y cartref ac nid ydynt o dan unrhyw rwymedigaeth statudol i'w chefnogi. Fodd bynnag, o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae ALLau o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg addas. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas heblaw yn yr ysgol (e.e. yn y cartref, yn breifat, neu drwy ddarpariaeth amgen).

Section 436A

- (1) A local authority must make arrangements to enable them to establish (so far as it is possible to do so) the identities of children in their area who are of compulsory school age but
 - (a) are not registered pupils at a school, and
 - (b) are not receiving suitable education otherwise than at a school.

"Suitable education", in relation to a child, means efficient full-time education suitable to his age, ability and aptitude and to any special educational needs he may have.

Mae gorchymyn mynychu'r ysgol yn berthnasol mewn achosion lle mae rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol yn methu â phrofi bod y plentyn yn derbyn addysg addas a lle mae'r ALI o'r farn y dylai'r plentyn fynd i'r ysgol.

Section 437 of the Education Act 1996 – School attendance orders

- (1) If it appears to a local authority that a child of compulsory school age in their area is not receiving suitable education, either by regular attendance at school or otherwise, they shall serve a notice in writing on the parent requiring him to satisfy them within the period specified in the notice that the child is receiving such education.
- (2) That period shall not be less than 15 days beginning with the day on which the notice is served.
- (3) If—
 - (a) a parent on whom a notice has been served under subsection (1) fails to satisfy the local authority, within the period specified in the notice, that the child is receiving suitable education, and
 - (b) in the opinion of the authority it is expedient that the child should attend school, the authority shall serve on the parent an order (referred to in this Act as a "school attendance order"), in such form as may be prescribed, requiring him to cause the child to become a registered pupil at a school named in the order.
- (4) A school attendance order shall (subject to any amendment made by the local authority) continue in force for so long as the child is of compulsory school age, unless—
 - (a) it is revoked by the authority, or
 - (b) a direction is made in respect of it under section 443(2) or 447(5).
- (5) Where a maintained school is named in a school attendance order, the local authority shall inform the governing body and the head teacher.
- (6) Where a maintained school is named in a school attendance order, the governing body (and, in the case of a maintained school, the local authority) shall admit the child to the school.
- (7) Subsection (6) does not affect any power to exclude from a school a pupil who is already a registered pupil there.
- (8) In this Chapter—

"maintained school" means any community, foundation or voluntary school or any community or foundation special school not established in a hospital.

I gael rhagor o wybodaeth am orchmynion mynychu'r ysgol, gweler y *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan* (www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?lang=cy).

Hawliau plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sail i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant, fel y maent wedi'u nodi yn CCUHP. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth arfer unrhyw swyddogaethau.

Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi'i seilio ar y saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n crynhoi CCUHP ac yn gosod y sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar flaenoriaethau ac amcanion cenedlaethol. Maent hefyd yn sail i benderfyniadau lleol ar strategaethau a gwasanaethau.

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn darparu hawl i blant fynegi eu barn ac i bwys dyledus gael ei roi i'r farn honno, yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi awdurdod i blant dros rieni. Dylai ALLau ystyried, drwy eu gwasanaethau i hybu cyfranogiad gan blant a phobl ifanc, sut y gellir sicrhau bod llais plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref, yn unigol ac ar y cyd, yn cael ei glywed a bod eu barn yn cael ei ystyried lle bo'n briodol.

Mae Erthygl 28 o CCUHP yn datgan bod hawl gan bob plentyn i gael addysg ac y dylai addysg gynradd fod yn orfodol ac yn ddi-dâl. Mae Erthygl 29 yn dweud y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i'r graddau mwyaf posibl. Fodd bynnag, un o egwyddorion sylfaenol CCUHP yw budd pennaf y plentyn, ac mae Erthygl 3 o CCUHP yn ei gwneud yn ofynnol i bob oedolyn ystyried sut y bydd ei benderfyniadau'n effeithio ar blant, a gwneud yr hyn sydd orau i'r plentyn.

Mae gwefan Hawliau Plant Cymru (www.hawliauplant.cymru) wedi'i bwriadu i helpu ymarferwyr, llunwyr polisi a rhanddeiliaid i feithrin eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut i edrych ar eu gwaith o safbwynt hawliau plant.


Dulliau addysgu yn y cartref

Nid yw'n ofynnol bod plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn dilyn cwricwlwm penodedig neu'n bodloni meini prawf ar gyfer nifer yr oriau dysgu. Gall dull addysgu yn y cartref fod ar unrhyw bwynt ar y continwwm rhwng addysgu ffurfiol, strwythuredig, seiliedig ar amserlen ac o fewn amgylchedd y cartref yn bennaf ac addysg ymreolus neu addysg o dan arweiniad y plentyn neu an-addysgu (gweler Ffigur 1).


Gellir teilwra'r dull yn ôl anghenion, diddordebau a dulliau dysgu'r plentyn. Yn ogystal, gall amrywio dros amser a rhwng pynciau. Er enghraifft, gallai plentyn symud o ddull mwy ymreolus pan yw'n iau at ddull mwy strwythuredig ar gyfer TGAU. Yn ystod y flwyddyn, gall addysg yn y cartref fod yn fwy strwythuredig drwy'r gaeaf ac yn fwy ymatebol i'r tywydd a chyfleoedd lleol yn ystod yr haf. Gellir cyflwyno rhai pynciau fel mathemateg drwy ddull strwythuredig, ac eraill fel hanes drwy brosiectau ymreolus.

Mae'n bwysig bod swyddogion yr ALL, lle maent yn gallu cynnig cyngor ar yr addysg a ddarperir, yn cydnabod nad yw'r arferion a'r safonau mewn addysg yn yr ysgol yn berthnasol o reidrwydd i addysg yn y cartref. Felly dylid seilio unrhyw gyngor ar yr amgylchiadau penodol ym mhob achos.

Ffigur 1: Dulliau addysgu yn y cartref



Ffigur 2: Camau y gall ALL eu cymryd pan fydd teulu wedi penderfynu addysgu yn y cartref



Polisiau a gweithdrefnau

Ymyrraeth gynnar a datrys anghydfodau

Yn achos rhai rhieni sy'n dewis tynnu eu plentyn o'r ysgol er mwyn ei addysgu yn y cartref, nid yw'r penderfyniad yn un annisgwyl. Weithiau bydd hanes o anghytuno rhwng y teulu a'r ysgol neu'r ALL. Yn aml bydd yr anghytuno'n ymwneud â'r hyn sydd orau i'r plentyn. Gall rhai achosion ymwneud â phryderon am fwlio sydd heb eu datrys, anghytuno ynghylch y trefniadau i gwrdd ag anghenion y plentyn, neu hyd yn oed gwrthdaro ag aelod o staff yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, dylid annog rhieni i barhau i ymgysylltu â'r ysgol i drafod eu pryderon. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau cwynion gan bob ysgol ac ALL y gellir eu dilyn os bydd pryderon rhieni heb gael eu datrys.

Er lles y plentyn, datrys pryderon o'r fath fydd y prif nod. Bydd pob ALL wedi gwneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau partneriaethau rhieni lleol sy'n gallu helpu i atal anawsterau rhag troi'n anghytuno a sicrhau bod rhieni'n gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chanllawiau er mwyn gwneud penderfyniadau priodol a gwybodus.

Mae'n bosibl y bydd yr ysgol a'r ALL am ystyried cychwyn proses cyfryngu er mwyn datrys anghydfodau o'r fath (gweler Enghraifft 1). Gall hyn alw am ddefnyddio swyddogion arbenigol a gwasanaethau eirioli arbenigol. Rydym yn argymhell bod cyfarfodydd dilynol yn cael eu cynnal ar ôl datrys anghydfod er mwyn sicrhau bod cytundeb yn parhau.

Lle cafwyd anghytuno â rhieni, dylai ALLau sicrhau bod pob agwedd ar y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei hystyried gyda'r teulu. Mae'n bwysig bod ysgolion ac ALLau yn cofio y gall rhieni ddewis addysg ddewisol yn y cartref pan na ellir datrys anghydfodau o'r fath.

Enghraifft 1: Enghreifftiau ymarferol – ymyrraeth gynnar a datrys anghydfodau

Caerdydd

Mae'r 'Panel Mynediad Teg' yn banel amlddisgyblaethol a'i swyddogaeth yw nodi materion sy'n codi a all arwain at ddewis addysg ddewisol yn y cartref, a chydweithio â theuluoedd ac ysgolion i geisio eu datrys. Mae'r panel yn cynnwys rheolwyr gweithredol a chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Lles Addysg, y Gwasanaeth Ieuenctid, addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), y gwasanaeth seicoleg addysgol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r gwasanaeth anghenion addysgol arbennig (AAA), a bydd penaethiaid ysgol yn bresennol ar sail rota. Gall pob gweithiwr proffesiynol atgyfeirio achos i'w wrando gan y panel ar yr amod ei fod yn gallu dangos bod nifer o fesurau wedi'u rhoi ar waith eisoes i geisio datrys y mater. Bydd y panel yn datblygu pecyn o gamau ymyrryd a chymorth i ddatrys materion mewn nifer o feysydd gwahanol, yn cynnwys AAA, presenoldeb, iechyd a lles ac ymddygiad.

Ceredigion

Prif rôl y cynghorydd addysg ddewisol yn y cartref yw Swyddog Lles Addysg. Mae mewn lle da i sicrhau bod materion a all beri i rieni ddewis addysgu eu plant yn y cartref yn cael eu datrys drwy gynnig cymorth ac arweiniad. Mae'r ALL yn caniatáu mynediad at y gwasanaeth eirioli cyffredinol i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion, a ddarperir gan Tros Gynnal. Gall hyn olygu bod llais y plentyn a'r teulu'n cael ei glywed ar faterion a all arwain at ddewis addysg ddewisol yn y cartref.

Os tynnir enw plentyn oddi ar gofrestr ysgol, bydd hynny'n arwain yn ddi-oed at gyswllt cyntaf â'r rhieni i sicrhau bod y dewis i addysgu yn y cartref yn un cadarnhaol ac nid yn benderfyniad sydd wedi'i wneud mewn ymateb i broblem sydd heb ei datrys neu angen sydd heb ei ddiwallu.

Addysg hyblyg

Mae presenoldeb hyblyg yn yr ysgol yn drefniant rhwng y rhiant a'r ysgol, lle caiff y plentyn ei gofrestru yn yr ysgol yn y ffordd arferol ond ei fod yn mynychu'r ysgol ar sail ran-amser. Bydd y plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref weddill yr amser.

Fel arfer mae addysg hyblyg yn fesur tymor byr i ddelio â mater neu bryder penodol. Cyfeirir at rai o fanteision ac anfanteision addysg hyblyg ar wefannau addysg yn y cartref (gweler 'Gwefannau ac adnoddau defnyddiol' ar dudalen 24).

Mae'r penderfyniad ynghylch addysg hyblyg a'r ffordd o'i darparu'n drefniant rhwng y rhiant a'r ysgol, ar ôl dod i gytundeb â'r ALL gan amlaf. Er bod addysg hyblyg yn fwy cyffredin mewn rhai ALLau na'i gilydd, mater i bennaeth yr ysgol yw penderfynu a fydd y trefniant hwn yn cael ei wneud.

Cyrchoedd triwantiad

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n cymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiad, gan gynnwys swyddogion heddlu, yn ymwybodol y gall plant o oedran ysgol fod y tu allan i'r ysgol am resymau dilys. Yn benodol, gallent ddod ar draws plant sy'n derbyn addysg yn y cartref nad yw'n ofynnol iddynt fod yn yr ysgol.

Ni ddylid cymryd camau pellach os yw plant yn dweud eu bod yn derbyn eu haddysg yn y cartref oni bai fod rheswm dros amau nad yw hynny'n wir. Mae angen rhoi gwybod i rieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref am y posibilrwydd y bydd gweithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiad am gael cadarnhad o wybodaeth a roddir iddynt yn yr amgylchiadau hyn. I sicrhau bod y broses hon yn gyflym ac yn effeithlon, rydym yn cynghori ALLau i gadw rhestr o'r holl blant o oedran ysgol y maent yn gwybod eu bod yn derbyn addysg yn y cartref. Gall staff yr ALL wirio'r rhestr wedyn yn ystod cyrch triwantiad. Ceir rhagor o wybodaeth am arferion da yng nghyswllt cyrchoedd triwantiad yn y *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan* (www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?lang=cy)

Cynorthwyo'r gymuned addysg yn y cartref

Cynorthwyo teuluoedd addysg ddewisol yn y cartref

Mae llawer o deuluoedd sydd wedi dewis addysgu yn y cartref yn dweud eu bod wedi gwneud hynny ar ôl pendroni a phwyso a mesur gwahanol ffactorau. Yn achos nifer o achosion, mae'r dewis yn golygu aberthu pethau eraill. Yn aml, bydd yn golygu ysgwyddo costau ariannol ychwanegol, wrth i deuluoedd ddod yn gyfrifol am gael gafael ar adnoddau a thalu am arholiadau. Mewn rhai achosion, bydd yn golygu byw ar un cyflog wrth i un rhiant dreulio ei amser yn addysgu un neu ragor o blant.

Gall y berthynas rhwng yr ALL a rhieni sy'n addysgu yn y cartref gael effaith bwysig a chadarnhaol ar addysg y plentyn. Felly mae'n bwysig bod ALL yn mabwysiadu ffordd gydymdeimladol a chefnogol o ymwneud â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Drwy weithredu fel hyn a meithrin ymddiriedaeth, bydd rhieni'n fwy parod i ymgysylltu â'r ALL (gweler Enghraifft 2).

Cwrdd â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref

Rydym yn argymhell bod cyfarfod cychwynnol yn cael ei gynnal â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref i drafod eu darpariaeth ac unrhyw gyngor a chymorth parhaus sydd eu hangen arnynt. Dylid cysylltu â'r teulu drwy lythyr fel arfer gan ofyn am gyfarfod neu wneud cais am ddiweddariad ysgrifenedig. Dylai'r ddwy ochr gytuno ar y man cyfarfod. Ar ôl hynny, rydym yn argymhell bod yr ALL yn ceisio cysylltu â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref o leiaf unwaith y flwyddyn. Os bydd rhieni'n dewis peidio â chwrdd â swyddogion ALL yn eu cartref, dylid ceisio gwneud trefniadau eraill.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, i wrando ac ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Maent hefyd yn gyfle i drafod barn plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref am yr addysg y maent yn ei chael, eu dewisiadau, eu dyheadau a'u huchelgeisiau. Mae'n bosibl y bydd swyddogion yr ALL am ofyn i deuluoedd am gael gweld enghreifftiau penodol o ddysgu, e.e. lluniau, peintiadau a modelau, dyddiaduron am weithgareddau addysgol, prosiectau, asesiadau, samplau o waith, llyfrau neu ymweliadau addysgol.

Dylai'r ALL baratoi adroddiad ar ôl cyfarfod o'r fath, ac anfon copi ohono at y teulu, gan ddatgan a oes unrhyw bryderon gan yr ALL ynghylch a yw addysg sy'n cael ei darparu yn addas. Dylid nodi yn yr adroddiad unrhyw argymhellion a wnaed gan yr ALL ac unrhyw gamau sydd i'w cymryd gan yr ALL ar ran y rhieni.

Os bydd yr ALL yn cysylltu â'r teulu dros y ffôn, dylid anfon llythyr cadarnhau wedyn am yr hyn sydd wedi'i drafod a'i gytuno.

Mae'n ofynnol i ALLau wneud trefniadau i nodi plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn derbyn addysg addas (gweler 'Cyfrifoldebau'r ALLau' ar dudalen 5). Drwy ddefnyddio'r cyfarfodydd hyn i feithrin cysylltiadau da â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref a chynnal deialog cadarnhaol â rhieni, bydd swyddogion yr ALL mewn lle gwell i gefnogi teuluoedd sy'n ei chael yn anodd darparu addysg addas.

Enghraifft 2: Enghraifft ymarferol – ymgysylltu â theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref

Ynys Môn

Mae'r ALL yn cynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn i deuluoedd addysg ddewisol yn y cartref mewn canolfan leol. Yn ystod y cyfarfodydd cynigir gwybodaeth a hyfforddiant ar bynciau fel diogelwch ar y rhyngwrdd gan yr heddlu, ac ar gymwysterau TGAU gan fyrddau arholi. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i fanteisio ar wasanaethau fel Gyrfa Cymru a gwasanaethau ieched.

Ystyriaethau ymarferol

Dylai ALL ddarparu swyddog cyswllt penodol ar gyfer rhieni sy'n addysgu yn y cartref a fydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Rydym yn argymhell dynodi swyddog sydd â chefnidir proffesiynol ym maes addysg ac sy'n gallu deall a chefnogi amrywiaeth o athroniaethau addysgol. Dylai'r swyddog gael hyfforddiant ar ddiogelu a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol o ran diogelu plant. Dylai'r rôl gynnwys cynnal cysylltiadau cadarnhaol â rhieni sy'n addysgu yn y cartref, codi ymwybyddiaeth o addysg yn y cartref o fewn yr ALL a chyfeirio rhieni at rwydweithiau cymorth a chyfleoedd addysgol y gall eu plant fanteisio arnynt.

Gall fod yn ddefnyddiol galw'r swyddog cyswllt yn 'gyngghorydd', 'ymgyngghorydd addysg yn y cartref' neu 'gydgysylltydd addysg yn y cartref' yn hytrach nag 'arolygydd', 'asesydd', 'gweithiwr cymdeithasol addysg' neu 'swyddog lles addysg'. Dylai ALLau drefnu hyfforddiant ar y gyfraith a dulliau addysgu yn y cartref ar gyfer pob swyddog sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Rydym yn argymhell bod ALLau yn mabwysiadu polisi ysgrifenedig ar addysg ddewisol yn y cartref a baratowyd drwy ymgynghori â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Gellir cynnwys manylion rhwydweithiau cyngor a chymorth, manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid neu ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau'r ALL mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref. Dylai'r polisi fod ar gael ar wefan yr ALL a dylid trefnu iddo fod ar gael i'r holl deuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref. Wrth gyfathrebu â theuluoedd, mae'n bwysig bod ALLau yn rhoi sylw i unrhyw ystyriaethau diwylliannol neu ieithyddol.

Gweithio gyda rhwydweithiau a grwpiau addysg yn y cartref

Dylai ALL geisio meithrin cysylltiadau gwaith cadarnhaol â rhwydweithiau a grwpiau addysg yn y cartref yn eu hardal. Ceir enghreifftiau eisoes o gysylltiadau cefnogol mewn nifer o ALLau (gweler Enghraifft 3). Bydd hyn o gymorth mawr i deuluoedd sydd wedi penderfynu addysgu yn y cartref yn ddiweddar ac sydd angen cymorth. Yn aml bydd grwpiau o'r fath yn cwmpasu ardaloedd nifer o ALL. Mae rhai ohonynt wedi dod yn elusennau ac mae eraill yn rhwydweithiau mwy anffurfiol. Gall y grwpiau hyn fod yn amhrisiadwy o ran helpu rhieni drwy eu cynghori, eu harwain a hyd yn oed eu hysbrydoli yn eu menter newydd. Yn fwy na dim, gallant ddarparu profiadau dysgu pwysig, cyrsiau, ymweliadau ac ati i wella'r ddarpariaeth addysg yn y cartref ar

gyfer y plant a'r pobl ifanc sy'n cymryd rhan. Gall y grwpiau hyn gynnig cyfleoedd hefyd i blant a phobl ifanc ddod yn ffrindiau â phlant a phobl ifanc eraill sy'n derbyn addysg yn y cartref.

Mae'n bosibl na fydd gan rieni ychydig iawn neu ddim profiad o addysgu yn y cartref. Gall gymryd amser iddynt sefydlu'r arferion mwyaf addas a gwneud yr addasiadau mawr sydd eu hangen i ddarparu addysg yn y cartref yn effeithiol. Os ydynt yn hollol anghyfarwydd ag addysg yn y cartref, yna mae'n bosibl na fyddant yn gwybod am y math o gyngor a chymorth sydd ar gael. Efallai nad ydynt yn ymwybodol chwaith o'r rhwydweithiau cymorth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer addysg yn y cartref. Os yw ALLau yn gwybod am grwpiau neu rwydweithiau o'r fath, dylent drosglwyddo'r manylion cyswllt i deuluoedd sy'n dechrau addysgu yn y cartref a rhai sy'n newydd i'r ardal.

Rydym yn argymhell hefyd fod swyddogion ALL, wrth ymgysylltu â'r grwpiau hyn, yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar ddiogelu ac amddiffyn plant sydd ar gael i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Enghraifft 3: Enghraifft ymarferol – cynorthwyo grwpiau addysg yn y cartref

Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr ALL a Bridgend Home Educators yn unigryw yng Nghymru. Mae'r ALL yn darparu neuadd gymuned i'w defnyddio gan y grŵp am ddiwrnod yr wythnos. Cyfleuster amlbwrpas yw hwn sydd â lle mawr ar gyfer chwarae ac ystafelloedd llai ar gyfer dysgu. Maent yn addysgu mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth ar lefel TGAU, gwyddor yr amgylchedd ac amrywiaeth o bynciau eraill, gan gynnwys TGAU mewn Seryddiaeth. Yn ogystal, mae'r grŵp yn darparu rhaglen Gwobr Jon Muir – gwobr amgylcheddol sy'n cymell pobl o bob cefndir i gysylltu, mwynhau a gofalu am fannau gwyllt drwy raglen strwythuredig ond hyblyg.

Mae'r ALL yn darparu grant o £5,000 y flwyddyn i'r grŵp sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i dalu am arholiadau TGAU. Mae tua 200 o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda'r grŵp. Mae rhai ohonynt yn adnabyddus i'r ALL ac mae eraill yn dewis peidio â chael eu hadnabod. Mae'r grŵp a'r ALL yn parchu'r dewis hwn.

Mae dau addysgwr yn y cartref wedi'u hyfforddi'n oruchwylwyr arholiadau a hefyd wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Mae'r grŵp wedi gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid lleol ac wedi darparu ar gyfer ennill credydau Rhwydwaith y Coleg Agored a chynnal gweithdai seiliedig ar bynciau trafod. Mae'r grŵp hefyd wedi cydweithio â YMCA Porthcawl i ddarparu Cynllun Gwobr Dug Caeredin. Yn fwy diweddar mae'r grŵp wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Rhandiroedd i adfer darn o dir a datblygu rhandir. Roedd y gwaith hwn yn gysylltiedig â darparu TGAU Gwyddor yr Amgylchedd a hefyd wedi galluogi'r plant a phobl ifanc i gyflawni prosiect sy'n dod â budd i'r gymuned ehangach.

Mae rhai o arweinwyr grŵp Bridgend Home Educators wedi darparu hyfforddiant ar addysg yn y cartref i grwpiau o weithwyr proffesiynol amlasiantaethol o fewn yr ALL. Ni chodwyd tâl am yr hyfforddiant hwn.

Cefnogi plant a phobl ifanc

Er nad yw ALLau yn derbyn cyllid ar gyfer plentyn sy'n derbyn addysg yn y cartref ac er nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y plentyn hwnnw, os yn bosibl dylent hyrwyddo mynediad at gyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yn eu hardal.

Mae'n bwysig cofio mai mater i'r rhieni yw'r penderfyniad i addysgu yn y cartref. Dylai ALLau ac ysgolion barchu dewis y rhieni ac, yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref, ni ddylent eu hatal yn awtomatig rhag derbyn y gwasanaethau cymorth o bob math sydd ar gael, megis cyngor ar yrfaeodd a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn aml mae darpariaeth o'r fath ar gael yn ddirwystr ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol ac achrededig i bobl ifanc, yn ogystal â'r gallu i gael gafael ar gymorth i wella eu dysgu a'u lles.

Mae rhai ALLau yn darparu manylion cyswllt gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn pecyn gwybodaeth i rieni sy'n addysgu yn y cartref. Mae eraill yn hyrwyddo mynediad at wasanaethau cymorth addysgol arbenigol, fel y gwasanaeth seicoleg addysg a nyrsys ysgol. Rydym yn argymhell bod staff ALLau sy'n gyfrifol am ymgysylltu â'r gymuned addysg ddewisol yn y cartref yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am y gwahanol wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal. Bydd hyn yn eu galluogi i roi gwybod i deuluoedd am ddarpariaethau a all wella profiad addysgol plant sy'n derbyn addysg yn y cartref. Bydd y rhain yn cynnwys rhwydweithiau lleol, e.e. fforymau ieuenctid a ffynonellau eraill sy'n cynnig cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc.

Mae'n ofynnol i ALLau ddarparu gwasanaethau cwnsela annibynnol i bawb sydd rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal. Mae gan blant a addysgir yn y cartref hawl i dderbyn y gwasanaeth hwn. Bydd swyddog cyswllt yr ALL yn gallu darparu gwybodaeth i addysgwyr yn y cartref sydd am dderbyn y gwasanaeth.

Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid gan yr holl ALLau yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd dysgu i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, a hynny yn sgil cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru i ALLau yn 2002 i 'ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn narpariaeth wasanaethau cymorth ieuenctid'³. Y diffiniad o wasanaethau cymorth ieuenctid a roddwyd yw gwasanaethau a fydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i:

- gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant
- manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth
- cymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau (gweler Enghreifftiau 4 a 5).

³ Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002.

Mae'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* yn darparu enghreifftiau o ddulliau penodol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid⁴. Mae'r fframwaith yn bwysig o ran gweithredu dulliau mwy effeithiol a systematig o adnabod y pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ac y mae angen cymorth arnynt, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen i'w rhoi ar y trywydd iawn. Yr ALLau sy'n gyfrifol am weithredu'r fframwaith hwn.

Enghraifft 4: Enghraifft ymarferol – cysylltiadau ag addysg bellach/addysg dan 16

Ceredigion

Mae'r ALL yn hwyluso cysylltiadau rhwng teuluoedd addysg ddewisol yn y cartref a Choleg Ceredigion. Mae plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref yn gallu gwneud cais i ddilyn amrywiaeth o gyrsiau mewn pynciau TGAU a phynciau galwedigaethol. Mae'r ALL yn darparu llythyr i'r ymgeisydd addysg ddewisol yn y cartref yn cadarnhau ei fod yn derbyn addysg yn y cartref.

Ymysg y cyrsiau poblogaidd y mae cwrs cyn-TGAU amser llawn sy'n cynnig pynciau fel Cyfryngau Creadigol a Chelfyddydau Perfformio, yn ogystal ag elfen graidd (sy'n cynnwys TGCh, llythrennedd, rhifedd a Chymraeg), Diploma Rhagarweiniol BTEC mewn Astudiaethau Galwedigaethol a dosbarthiadau nos TGAU.

Enghraifft 5: Enghraifft ymarferol – hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr sy'n derbyn addysg yn y cartref

Sir Gaerfyrddin

Ar ôl cael cydsyniad y rhieni a'r plentyn, gall y cynghorydd addysg ddewisol yn y cartref atgyfeirio achos i lechyd Da os teimlir y gallai'r plentyn gael budd o raglen ymyrraeth fyr i ymdrin â lefelau isel o hunan-barch, problemau iechyd, camddefnydd o sylweddau neu broblemau sy'n ymwneud â bwlio. Mae parch mawr i'r prosiect ac mae'n cael croeso cadarnhaol. Mae'n cael ei ystyried yn gymorth hanfodol i rai plant sydd wedi'u tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, yn enwedig o ganlyniad i fwlio.

Bydd angen i ALLau ystyried yn ofalus sut y gallant helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref, a'u teuluoedd, i gael gfael ar wasanaethau cyffredinol. Bydd hyn yn bwysig iawn i deuluoedd sy'n ymatal rhag ymgysylltu â gwasanaethau, a rhag cymryd rhan yn y trefniadau diogelu ac amddiffyn a ddarperir gan a thrwy wasanaethau cyffredinol. Os na fydd teulu'n dymuno ymgysylltu â'r ALL, dylai swyddogion addysg ystyried a oes angen cysylltu â gwasanaethau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth a all dynnu sylw at unrhyw bryderon ynghylch lles y plentyn neu'r teulu.

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, er enghraifft, yn darparu cymorth i deuluoedd ag amrywiaeth o anghenion. Mae'r rhaglen yn annog teuluoedd i gydnabod beth sy'n gweithio'n dda er mwyn

⁴ www.gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?lang=cy

iddynt allu tyfu a datblygu eu hunain. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar helpu teuluoedd i ddod yn fwy hyderus a chadarn. Un o elfennau allweddol y rhaglen yw'r model Tîm o Amgylch y Teulu, sy'n darparu cymorth pwrpasol a dwys i deuluoedd ac yn dwyn sefydliadau ynghyd i weithio gyda'r teulu cyfan i atal problemau rhag gwaethygu.

Mae'n bwysig bod pob plentyn a'i deulu'n cael cyfle i fanteisio ar gwasanaethau imiwneiddio a sgrinio iechyd a gynigir iddynt. Bydd hyn yn rhoi cyfle i deuluoedd drafod y cerrig milltir disgwylidig yn natblygiad y plentyn ac i reoli lles y plentyn yn barhaus gyda gweithwyr proffesiynol.

Gall ysgolion hwyluso mynediad at nifer o'r gwasanaethau hyn, fel imiwneiddio a sgrinio iechyd. Bydd angen i ALLau weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i helpu a galluogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion.

Nodweddion darpariaeth addysg yn y cartref

Pan fyddant yn ystyried y ddarpariaeth gan rieni, gall ALLau ystyried y nodweddion sydd wedi'u rhestru isod. Drwy hwyluso mynediad at rwydweithiau a chymunedau addysg ddewisol yn y cartref cyfredol, gall ALLau helpu teuluoedd i ddatblygu'r ffyrdd o wneud y canlynol.

- Cynnwys rhieni yn gyson wrth gyflwyno'r ddarpariaeth mewn lleoliad sy'n seiliedig ar y teulu'n bennaf.
- Cydnabod anghenion, dyheadau ac arddulliau dysgu'r plentyn.
- Cyfleoedd i ysgogi'r plentyn drwy ei brofiadau dysgu.
- Cael gafael ar adnoddau/deunyddiau sydd eu hangen i ddarparu addysg yn y cartref i'r plentyn, fel papur a phennau, llyfrau a llyfrgelloedd, deunyddiau ar gyfer celfyddydau a chrefftau, gweithgarwch corfforol, TGCh a'r cyfle i ryngweithio'n briodol â phlant eraill.
- Cynnwys Gyrfa Cymru mewn cyfnod priodol.
- Datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n addas i oed, doniau a gallu'r plentyn, gan ystyried unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo.

Mae'n bwysig bod ALLau yn ystyried y ffaith bod plant sy'n derbyn addysg yn y cartref gael mwy o amser cyswllt un i un nag yn yr ysgol, y gall addysg ddigwydd y tu allan i oriau ysgol arferol, ac y gall y math o weithgarwch addysgol fod yn amrywiol a hyblyg. **Nid** yw'n ofynnol i rieni sy'n addysgu yn y cartref:

- addysgu'r cwricwlwm cenedlaethol
- dilyn amserlen
- cyfarparu adeilad at safon benodol
- marcio gwaith eu plentyn
- pennu oriau ar gyfer darparu addysg
- bod â chymwysterau penodol

- dilyn yr un maes llafur ag unrhyw ysgol
- cynllunio'n fanwl ymlaen llaw
- cadw at oriau, diwrnodau neu dymhorau ysgol
- rhoi gwersi ffurfiol
- atgynhyrchu'r math o gymdeithasoli rhwng cyfoedion a geir mewn ysgol
- cydymffurfio â safonau ar gyfer oedrannau ysgol penodol.

Er hynny, dylai'r ALLau gynnig cyngor a chymorth i rieni ar y materion hyn os byddant yn gofyn.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i blant sy'n derbyn addysg yn y cartref ddilyn set benodol o gymwysterau. Gan fod nifer o gymwysterau, fel TGAU, yn cynnwys cydran asesu fewnol, gall fod yn anodd i ymgeiswyr allanol eu hennill. Fodd bynnag, nid y rhain yw'r unig gymwysterau y gall ymgeiswyr allanol eu dilyn, a gall fod yn fuddiol i ALLau gynnig gwybodaeth i rieni a'u plant am gymwysterau eraill a'r trefniadau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r plant eu dilyn. Dylai ALLau hefyd roi gwybod i rieni, a'u plant os yw'n briodol, am unrhyw broblemau y gallent eu hwynebu os nad yw eu cymwysterau'n cael eu cydnabod yn ddigonol gan gyflogwyr neu gan sefydliadau addysg bellach neu uwch.

Os bydd teuluoedd am gymryd cymwysterau ffurfiol fel TGAU, dylai ALLau eu cynghori ynghylch opsiynau o ran cymwysterau a'u hannog i ddefnyddio adnoddau fel Dysgu Cymru (gweler Ffigur 3).

Ffigur 3: Dysgu Cymru

Mae Dysgu Cymru yn wefan sydd wedi'i greu er mwyn cwrdd ag anghenion addysgwyr ac ymarferwyr a gwella safonau ymysg darparwyr dysgu ledled Cymru.

www.llyw.cymru/dysgu

Gyda ffocws ar wella, mae pob tudalen yn cynnig gwahanol fathau o gymorth a chngor wedi'u teilwra ac yn crynhoi'r wybodaeth sydd ar gael a'i gwneud yn haws i chi chwilio am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r wefan hefyd yn cael ei hategu gan Hwb, llwyfan dysgu Cymru gyfan, lle ceir casgliad cenedlaethol o adnoddau digidol, cynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr a meysydd cydweithredol. www.hwb.cymru.gov.uk

Rhannu arferion da

Yn yr un modd â meysydd eraill, mae'n bwysig bod swyddogion ALL sy'n gyfrifol am addysg ddewisol yn y cartref yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau perthnasol. Gall rhwydweithiau roi cefnogaeth werthfawr i swyddogion ALL. Gallant gyfrannu at ddatblygu dulliau gweithredu cyson ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, a bod yn gyfrwng i rannu arferion da.

Mae enghreifftiau o rwydweithiau lleol a chenedlaethol sydd wedi datblygu'n ddiweddar. Mae rhai swyddogion ALL yn cwrdd drwy eu trefniadau rhanbarthol. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, mae rhwydwaith sy'n cael ei gadeirio gan swyddogion ALL yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd nifer o gynrychiolwyr yr ALL yn mynychu cyfarfodydd y rhwydwaith yn ogystal â chynrychiolwyr grwpiau addysg ddewisol yn y cartref.

Plant sydd â datganiadau AAA

Gall yr ALL ond roi'r gorau i gynnal datganiad AAA os nad oes angen ei gynnal bellach mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn addysg yn y cartref. Bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen ei gynnal ai peidio yn dibynnu ar allu'r rhieni i wneud darpariaeth addas ar gyfer anghenion arbennig y plentyn. Gall y ddarpariaeth honno fod yn wahanol i'r un sydd wedi'i disgrifio yn y datganiad. Yr unig ofyniad yw bod rhieni'n darparu addysg effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a dawn y plentyn, ac sy'n addas i unrhyw AAA sydd gan y plentyn, yn unol ag adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.

Os yw'n fodlon bod trefniadau'r rhieni yn addas, yna caiff yr ALL ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth a bennwyd yn y datganiad. Fodd bynnag, os yw trefniadau'r rhieni'n methu â diwallu anghenion y plentyn, yna nid yw'r rhieni'n gwneud trefniadau addas ac nid yw'r ALL wedi'i ryddhau o'i gyfrifoldeb i drefnu'r ddarpariaeth yn y datganiad. Mewn rhai achosion, darpariaeth ar y cyd gan y rhieni a'r ALL fydd yn diwallu anghenion y plentyn orau.

Tra bydd y datganiad yn cael ei gynnal, rhaid ei adolygu'n flynyddol drwy ddilyn y gweithdrefnau sydd ym Mhennod 9 o'r ddogfen *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf).

Mae rhieni plentyn sy'n derbyn addysg yn y cartref nad oes ganddo ddatganiad AAA yn gallu gofyn i'r ALL gynnal asesiad statudol o anghenion addysgol y plentyn o dan adran 328 neu adran 329 o Ddeddf Addysg 1996. Os gwelir, ar ôl gwneud asesiad o'r fath, ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y rhiant, ei bod yn angenrheidiol i'r ALL bennu'r ddarpariaeth o addysg arbennig sydd ei hangen i gwrdd ag unrhyw anhawster dysgu sydd gan y plentyn, yna rhaid i'r ALL wneud a chynnal datganiad AAA.

Nid yw adran 324(4A) o Ddeddf Addysg 1996 yn galw am nodi enw ysgol yn Rhan 4 o'r datganiad, os yw rhiant y plentyn wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer y ddarpariaeth addysgol benodol sydd wedi'i phennu yn y datganiad. Dylid cael trafodaeth rhwng yr ALL a'r rhieni ac, yn hytrach na chynnwys enw'r ysgol, dylid cyfeirio yn Rhan 4 o'r datganiad at y math o ysgol y mae'r ALL yn credu ei fod yn briodol, gan sôn bod 'y rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996'. Gall y datganiad hefyd bennu unrhyw ddarpariaeth y mae'r ALL wedi cytuno i'w gwneud o dan adran 319 o'r Ddeddf honno i helpu rhieni i ddarparu addysg addas i'w plentyn yn y cartref.

Deddfwriaeth ar anghenion dysgu ychwanegol

Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cymeradwyo deddfwriaeth newydd ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno cynlluniau datblygu unigol (CDU) yn lle'r datganiadau AAA. Bydd cod ar ADY i ategu'r ddeddfwriaeth newydd yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori maes o law. Bydd y canllawiau yn y ddogfen hon yn cael eu diweddarau yn unol â'r newidiadau hyn a bydd angen i ALLau ystyried y goblygiadau i ddysgwyr sy'n derbyn addysg yn y cartref.

Diogelu

Dyletswyddau diogelu'r ALLau

Dylai lles a diogelwch pob plentyn a pherson ifanc, waeth a yw'n derbyn addysg mewn ysgol neu yn y cartref, fod o'r pwys mwyaf i bawb. Mae'n gyfrifoldeb i bawb.

Gellir ond gwella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc a'u cynnal pan fo unigolion a chyrrff allweddol yn cydweithio i ddylunio a darparu gwasanaethau mwy integredig i ddiwallu eu hanghenion. Rhaid i hyn gael ei arwain ar lefel leol a'i gefnogi'n genedlaethol.

Rhaid i bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc. Rhaid iddynt allu adnabod ac adrodd ar bryderon ynghylch diogelwch plentyn i'r asiantaethau perthnasol. Rhaid iddynt hefyd allu gweithio'n effeithiol â chydweithwyr yn eu sefydliadau eu hunain, asiantaethau eraill a rhieni.

Ni ddylai penderfyniad gan riant i addysgu ei blentyn yn y cartref fod yn rheswm ynddo'i hun dros bryderu ynghylch lles y plentyn. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau sydd, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag amgylchiadau eraill, yn ennyn chwilfrydedd gweithwyr proffesiynol ynghylch materion diogelu plant ac yn eu harwain i ymchwilio ymhellach. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i swyddogion addysg ystyried a oes angen iddynt gydgyssylltu â gwasanaethau ac asiantaethau perthnasol eraill. Gallai'r amgylchiadau dan sylw gynnwys:

- lle y nodwyd bod plentyn neu aelod o'r teulu mewn angen
- lle mae plentyn neu aelod o'r teulu wedi'i atgyfeirio i sylw gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am resymau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, ac ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater
- lle mae plentyn neu ei frawd neu chwaer ar y gofrestr amddiffyn plant
- lle mae plentyn neu aelod o'r teulu wedi cael ei atgyfeirio ar sail gofal ac amddiffyn, a'r atgyfeiriad yn cael ei ystyried
- lle mae plentyn yn destun gofyniad am oruchwylio
- lle mae'n hysbys bod y plentyn yn ofalwr
- lle nad yw plentyn wedi'i weld ers cyfnod hir gan unrhyw wasanaethau cyffredinol
- lle mae aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryder ynghylch lles plentyn
- lle mae teulu'n cadw oddi wrth wasanaethau a gofal iechyd arferol.

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yng Nghymru yn Ebrill 2016. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol cryfach ar gyfer diogelu plant. Mae hefyd wedi cyflwyno 'dyletswydd i adrodd' i'r ALL ac yn diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg'.

Rhaid i staff ar draws yr ALL, y gwasanaethau iechyd a'r heddlu adrodd unrhyw bryderon i'r ALL lle mae ganddynt sail resymol dros amau bod plentyn yn cael neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Yn dilyn hysbysiad o'r fath, ac os ydynt yn fodlon bod sail resymol dros amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, rhaid i'r ALLau arfer eu dyletswydd bresennol i ymchwilio o dan adran 47

o Ddeddf Plant 1989. Mewn amgylchiadau penodol, gallai'r ALL ystyried gwneud cais am orchymyn asesu plentyn o dan adran 43(1)(a) o Ddeddf Plant 1989. Dylai ymarferwyr yr ALL geisio cyngor cyfreithiol gan eu hadran gyfreithiol cyn gwneud cais o'r fath.

Mae'n hollbwysig gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a rhaid i ALLau ddarparu gwybodaeth a chngor i bobl ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael a'u helpu i gael gafael arnynt. Rhaid i'r ALL hefyd hyrwyddo ymyrraeth gynnar a chamau ataliol er mwyn sicrhau bod pobl o bob oed yn cael eu cefnogi'n well i gyflawni eu deilliannau personol, ac rhaid iddynt archwilio opsiynau ar gyfer diwallu eu hanghenion o ran gofal a chymorth.

Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth yn un o brif ddarpariaethau'r Ddeddf sydd yn sicrhau bod gan bobl fynediad at system a fydd yn rhoi gwybodaeth ar y mathau o wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael iddynt a sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn.

Fodd bynnag, gall fod adegau lle mae'r wybodaeth sy'n dod i law yn ei gwneud yn ofynnol i ALL gymryd camau ar frys. Mae Rhan 5 o Ddeddf Plant 1989 yn amlinellu pwerau i ddiogelu plant lle mae sail resymol dros amau bod plentyn yn cael neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio.

Gall rhieni ddewis cyflogi pobl eraill i ddarparu rhai agweddau ar addysg eu plentyn, er y byddant yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o'r addysg eu hunain ac yn parhau'n gyfrifol am yr addysg a ddarperir gan bobl eraill. Byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheini y maent yn eu cyflogi'n addas i weithio gyda phlant. Ceir canllawiau ar y prif faterion i'w hystyried wrth benodi unigolion sy'n gweithio gyda phlant yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (www.gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf).

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn nodi'r camau i'w cymryd wrth weithio gyda theuluoedd mewn achosion lle mae pryderon yn codi ynghylch lles plant. Maent yn rhan hanfodol o'r broses o ddiogelu plant a hybu eu lles. Maent yn sail i arferion diogelu plant ym mhob un o'r byrddau diogelu plant lleol a rhanbarthol ar draws Cymru. Cânt eu rheoli gan Grŵp Adolygu Diogelu Plant Cymru Gyfan sy'n cynrychioli holl asiantaethau diogelu plant Cymru a'u hasiantaethau partner (www.plantynghymru.org.uk/ein-gwaith/diogelu/grwp-adolygu-gweithdrefnau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan).

Rhannu gwybodaeth

Mae'r gallu i amddiffyn plant rhag eu cam-drin neu eu hesgeuluso, yn ogystal â'r gofyniad cyffredinol i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles, yn dibynnu ar drefniadau effeithiol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth, cydweithio a sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Mae'n hanfodol felly bod gwasanaethau ALLau a'u partneriaid yn rhoi prosesau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth.

Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn agwedd hanfodol ar ddiogelu a hybu lles plant. Mae rhannu gwybodaeth fel hyn yn bwysig er mwyn diwallu anghenion plant yn gynnar, yn hytrach na phan fydd problemau difrifol wedi datblygu.

Dylai hefyd gynnwys rhoi systemau, safonau a phrotocolau cytûn yn eu lle ar gyfer rhannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu o fewn asiantaeth a rhwng asiantaethau. Dylai'r protocolau hyn fod yn gyson ag unrhyw ofynion cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yng Nghymru, gweler Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) (www.waspi.org).

Gwefannau ac adnoddau defnyddiol

Gwefannau

Ceir isod ddetholiad o sefydliadau, gwefannau ac adnoddau cenedlaethol ac ar gyfer y DU y gall ALLau eu darparu i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol. Yn ogystal â'r rhain, efallai y bydd ALLau yn hoffi darparu manylion grwpiau a rhwydweithiau lleol sy'n cefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Gallent hefyd ddarparu gwybodaeth benodol yn eu hardaloedd, e.e. gwybodaeth ynghylch defnyddio colegau lleol, arholiadau ffurfiol neu gyrsiau Cymraeg.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

www.aggcc.org.uk

Briteschool (British E-School) (Saesneg yn unig)

www.briteschool.co.uk

Christian Home Education Support Service (CHESS) (Saesneg yn unig)

www.thehomeservice.org

Comisiynydd Plant Cymru

www.complantcymru.org.uk

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

www.waspi.org

Dysgu Cymru

www.llyw.cymru/dysgu

Elective Home Education Wales (Saesneg yn unig)

www.waleshomeeducation.co.uk

Education Otherwise (Saesneg yn unig)

www.educationotherwise.net

www.education-otherwise.org

Gyrfa Cymru

www.gyrfacymru.com

Hawliau Plant Cymru

www.hawliauplant.cymru

Home Education Advisory Service (Saesneg yn unig)

www.heas.org.uk

Home Education Centre (Saesneg yn unig)

www.homeeducationcentre.org.uk

Home Education UK (Saesneg yn unig)

www.home-education.org.uk

Home Schooling (Saesneg yn unig)
www.homeschool.co.uk

Hwb
www.hwb.cymru.gov.uk

Mae addysg yn dechrau yn y cartref
www.facebook.com/dechraucartref

Y Brifysgol Agored (Saesneg yn unig)
www.open.ac.uk

Ysgol Goedwig Cymru
www.forestschoollwales.org.uk

Adnoddau

Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – codau ymarfer a chanllawiau statudol

www.cgymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol/?force=2

Diogelu plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004

www.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/circular/nafwc1207/?skip=1&lang=cy